



Coed Sychedig!

Fel y rhan fwyaf o rywogaethau eraill, ni all coed fyw heb ddŵr, a dŵr sy'n gyfrifol am dros 50% o'u pwysau. Faint o ddŵr mae eich coeden chi angen ei yfed ar ddiwrnod arferol? Dyma sut i ganfod yr ateb!

Mesur Cylchedd

- 1 Yn gyntaf, defnyddiwch dâp mesur i fesur cylchedd y boncyff tua lefel uchder y frest (uchder o 1.3 metr neu 130cm i fyny o'r llawr). Gosodwch eich bys ar y goeden ger y marc 1.3m neu 130cm.
- 2 Cylchedd yw'r mesur o bellter o amgylch cylch. Er mwyn mesur cylchedd y goeden, defnyddiwch y tâp mesur i fesur o gwmpas boncyff y goeden ar uchder o 1.3m.

Cylchedd y goeden yw: cm

Cyfrifwch faint o ddŵr y mae'r goeden angen ar ddiwrnod arferol (40 litr ar gyfer pob 2.5cm o gylchedd y boncyff).

Cylchedd	÷ 2.5cm	x 40	Litr y diwrnod
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Ar ddiwrnod arferol, mae coeden 1 angen yfed litr o ddŵr.

Cylchedd y goeden yw: cm

Cyfrifwch faint o ddŵr y mae'r goeden angen ar ddiwrnod arferol (40 litr ar gyfer pob 2.5cm o gylchedd y boncyff).

Cylchedd	÷ 2.5cm	x 40	Litr y diwrnod
<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

Ar ddiwrnod arferol, mae coeden 2 angen yfed litr o ddŵr.

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

0300 065 3000